



Law
Commission
Reforming the law

Gwaith Comisiwn y Gyfraith Ymgorffori'r Deuddegfed Raglen



Comisiwn y Gyfraith

1st Floor Tower
52 Queen Anne's Gate
Lundain SW1H 9AG

020 3334 0200

www.lawcom.gov.uk

@Law_Commission

Comisiwn y Gyfraith

Gwaith
Comisiwn y Gyfraith

Ymgorffori'r Deuddegfed Raglen

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hybu diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Lloyd Jones, *Cadeirydd*

Yr Athro Elizabeth Cooke

David Hertzell

Yr Athro David Ormerod CF

Nicholas Paines CF

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith yw Elaine Lorimer.

Lleolir Comisiwn y Gyfraith yn 1st Floor Tower, 52 Queen Anne's Gate, Llundain SW1H 9AG.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith ar www.lawcom.gov.uk.

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad am ddim mewn unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, yn ôl telerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi geisio caniatâd deiliaid perthnasol yr hawlfraint.

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys isafswm o 75% ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Ynglŷn â Chomisiwn y Gyfraith	1
Diwygio'r gyfraith yng Nghymru	2
Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009	2
Sut rydym yn gweithio	2
Ynglŷn â'r ddogfen hon	4
prosiectau diwygio'r gyfraith fesul blwyddyn	5
Prosiectau diwygio'r gyfraith	9
Anghymwyster i bledio	9
Arfau tanio	10
Biliau gwerthiannau	10
Bywyd gwyllt	11
Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus	12
Cofrestru tir	12
Cyfraith cytundebau yswiriant	13
Cyfraith elusenol, materion detholedig	15
Cyfraith etholiadol	16
Diogelu rhagdaliadau cwsmeriaid rhag ansolfedd y masnachwr	17
Dirmyg llys	18
Dull dedfrydu	19
Ewyllysiau	20
Ffioedd trosglwyddo teitl a newid meddiannaeth mewn lesddaliadau	21
Ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru	21
Gallu meddylion a chadw	22
Gorchmynion ariannol teuluol – gorfodaeth	23
Hawl i olau	24
Herwgipio	24
Niwsans cyhoeddus a sarhau gwedduster cyhoeddus	25
Rheoli cynllunio a datblygu yng Nghymru	26
Symleiddio cyfraith trosedd	26
Troseddau yn erbyn pobl	27
Cyfraith statud	28
Cyfuno	28
Diddymiadau cyfraith statud	28

Cyflwyniad

Ynglŷn â Chomisiwn y Gyfraith

Corff cyhoeddus anadrannol sefydlwyd gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yw Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n llunio rhan o deulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o gyrrff hyd braich.

Ein rôl yw adolygu ardaloedd o'r gyfraith a gwneud argymhellion am newidiadau, gyda'r nod o sicrhau bod y gyfraith mor syml, hygyrch, teg a chost effeithiol â phosib. Mae ein cylch gorchwyl yn cynnwys cyfundrefnu a chyfnerthu'r gyfraith, cael gwared ar anghysondebau a diddymu deddfwriaeth sydd wedi darfod neu sy'n ddiangen.

Dros y blynyddoedd rydym wedi sefydlu enw da am ragoriaeth gartref a thramor am ein harbenigedd yn mynd i'r afael ag ardaloedd o'r gyfraith sy'n gymhleth yn dechnegol, am drylwyredd ein hymchwil a natur eang ein hymgyngoriadau.

Yn tanategu ein dull o weithio mae ein hannibyniaeth o'r Llywodraeth a'r modd gwrthrychol yr ydym yn ymddwyn. Dywed rhanddeiliaid wrthym mai'r ethos cryf yma sy'n ein gwahaniaethu fel sefydliad. Golyga hyn y gall y cyhoedd fod yn hyderus y bydd cynigion yn cael eu trin mewn modd amhleidiol, ac y byddwn bob tro'n ceisio'r datrysiadau gorau, heb unrhyw fias gwleidyddol.

“Y tu allan i'r Senedd ei hun ac Adrannau'r Wladwriaeth mae hi mwy na thebyg yn wir i ddweud bod dim corff arall wedi cael effaith fwy ar y gyfraith a bywydau ein dinasyddion na Chomisiwn y Gyfraith ers ei sefydlu yn 1965.”

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Etherton, Canghellor yr Uchel Lys. Tystiolaeth ar gyfer Adolygiad Tair Blynedd Comisiwn y Gyfraith yn 2013.

Pwy ydym ni

Arweinir Comisiwn y Gyfraith gan Gadeirydd a phedwar Comisiynydd, gyda phob un wedi cael eu hapwyntio gan yr Arglwydd Ganghellor. Ar 31 Mawrth 2014, dyma oedd Comisiynwyr y Gyfraith:

- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Lloyd Jones, Cadeirydd
- Yr Athro Elizabeth Cooke, Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedaeth
- David Hertzell, Cyfraith Fasnachol a Chyffredin
- Yr Athro David Ormerod CF, Cyfraith Droseddol
- Nicholas Paines CF, Cyfraith Gyhoeddus

Mae'r Comisiynwyr yn cael eu harwain gan Brif Weithredwr, ac yn cael eu cefnogi gan staff Comisiwn y Gyfraith ynghyd â thîm o gynorthwywyr ymchwil.

Ein rhanddeiliaid

Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan ystod eang o randdeiliaid. Mae eu mewnbwn a'u harbenigedd yn ein helpu i sicrhau bod ein prosiectau yn gadarn a'n bod yn ystyried yr ystod lawn o farnau a safbwyntiau ar unrhyw agwedd benodol o'r gyfraith. Ymhlith ein prif rhanddeiliaid mae'r farnwriaeth, seneddwyr, arbenigwyr cyfreithiol, arbenigwyr pwnc o'r trydydd sector, y sector preifat a'r byd academiaidd, y sector cyhoeddus, swyddogion a gweinidogion y Llywodraeth. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n hadran nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Comisiynau eraill y Gyfraith, ysgolion a phrifysgolion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Diwygio'r gyfraith yng Nghymru

Fe sefydlom Bwyllgor Cynghori Cymru yn 2013 i roi llais cryfach i bobl Cymru ar ddiwygio'r gyfraith ac i'n helpu i barhau i weithredu fel corff diwygio'r gyfraith effeithiol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ar weithrediad ein swyddogaethau statudol mewn perthynas â Chymru, ac yn ein helpu i adnabod anghenion Cymru o ran diwygio'r gyfraith ac i ddeall gyda phwy ddylem ymgynghori a gweithio er mwyn mynd i'r afael â'r diwygiadau hyn.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys academyddion, aelodau o'r farnwriaeth, ymarferwyr, a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae eu diddordebau eang yn caniatáu iddynt weithredu fel corff gwirioneddol gynrychiadol, ac i roi mewnwelediad ffres ac agweddau newydd i ni ar brosiectau datganoledig a phrosiectau sy'n cynnwys Cymru a Lloegr, Prydain Fawr a'r DU.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith ffurfiol ar gyfer ein perthynas. Byddai Bil Cymru arfaethedig, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn sefydlu Protocol i lywodraethu sut mae'r ddwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyfeirio prosiectau diwygio'r gyfraith atom yn uniongyrchol. Byddai hefyd yn gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad ar weithrediad ein hadroddiadau.

Y tri phrosiect Cymreig sy'n rhan o'r 12fed Raglen yw'r prosiectau cyntaf y'u cynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru yn unig.

Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009

Gan edrych yn ôl dros ein gwaith ers sefydlu Comisiwn y Gyfraith yn 1965, mae tua 69 y cant o'r adroddiadau yr ydym wedi'u cynhyrchu ar ddiwygio'r gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith naill ai'n llawn neu'n rhannol. Fodd bynnag, yn ystod yn ddiweddar mae pryderon wedi codi bod cyfraddau gweithredu yn gostwng.

Amlinella Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 2009 rhai dulliau ymarferol o fynd i'r afael â'r mater hwn, gan sicrhau bod adroddiadau yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith mewn modd amserol ac effeithiol. Yn gyntaf, mae'n gosod dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd yn amlinellu cynnydd y Llywodraeth ar roi ein hadroddiadau ar waith.

Yn ail, cyflwynwyd Protocol ym mis Mawrth 2010 a oedd yn nodi na fyddai Comisiwn y Gyfraith yn cytuno i wneud prosiect heb ymrwymiad gan y gweinidog perthnasol bod yna fwriad gwirioneddol i symud ymlaen gyda diwygio'r gyfraith yn y maes hwnnw. Mae hefyd yn gofyn bod y gweinidog perthnasol yn darparu ymateb interim o fewn chwe mis o gyhoeddi adroddiad, ac ymateb terfynol o fewn blwyddyn.

Yn drydydd, ym mis Hydref 2010 fe gymeradwyodd Tŷ'r Arglwyddi ddull gweithredu seneddol newydd ar gyfer Biliau "annadleuol" Comisiwn y Gyfraith. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i Ail Ddarlleniad Biliau Comisiwn y Gyfraith sy'n annadleuol yn dechnegol ac yn wleidyddol i gael eu cymryd o'r llawr i'r Tŷ, gan alluogi i ddeddfwriaeth werthfawr oedd wedi cael trafferth yn flaenorol i sicrhau lle yn y brif raglen ddeddfwriaethol i fynd ymlaen i'r llyfr statud.

"Mae'n [Comisiwn y Gyfraith] unigryw, gan wneud tasgau sydd wir angen eu gwneud. Mae wedi gosod model ar gyfer gweddill y byd o ran annibyniaeth, ysgolheictod, pragmatiaeth a llwyddiant. Mae yna berygl gwirioneddol y byddai'r gyfraith yn aros yn yr un man hebdo."

Y Farwnes Deech DBE MA HonLLd. Tystiolaeth ar gyfer Adolygiad Tair Blynedd Comisiwn y Gyfraith yn 2013.

Sut rydym yn gweithio

Diwygio'r gyfraith

Bob tair neu bedair blynedd rydym yn ymgynghori'n eang, yn gofyn am awgrymiadau

am brosiectau addas ar ddiwygio'r gyfraith. Er bod dyletswydd arnom i "gymryd a chadw mewn ystyriaeth y gyfraith yn gyffredinol", mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ardaloedd y gyfraith sydd angen eu diwygio fwyaf a tuag at ddiwygiadau sydd fwyaf tebygol o gael eu rhoi ar waith, yn unol â Phrotocol 2010 (gweler uchod). Dylid canolbwyntio ar newid bydd yn rhoi buddion go iawn i bobl, busnesau, cyrff a sefydliadau.

Rydym hefyd yn ymgymryd â phrosiectau diwygio'r gyfraith sydd wedi cael eu cyfeirio atom yn uniongyrchol gan Adrannau'r Llywodraeth, gan roi'r hyblygrwydd i ni ymateb i faterion brys sy'n ymddangos y tu allan i'n rhaglen waith.

Cyn cychwyn ar brosiect diwygio'r gyfraith, byddwn yn cytuno ar gylch gorchwyl gyda'r Adran berthnasol ac, mewn rhai achosion, yn gosod un pwynt gweithredu neu gyfres ohonynt. Mae hyn yn rhoi cyfle i stopio ac edrych os oes angen yn dal i fodoli am brosiect o sylwedd ar ddiwygio'r gyfraith yn sgil yr ymchwil a'r dadansoddiad y cynhaliwyd hyd yma.

"Mae gan y Llywodraeth barch mawr tuag at waith Comisiwn y Gyfraith ac mae'r cynnydd yr ydym wedi gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos perthnasedd a gwydnwch parhaus gwaith y Comisiwn."

Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS, Arglwydd Ganghellor. Adroddiad ar Weithrediad Cynigion Comisiwn y Gyfraith Ion 2013 i Ion 2014, Mai 2014.

Cyfraith statud

Mae cyfuno cyfraith statud a diddymu statudau sydd wedi dyddio neu sydd heb ddiben defnyddiol bellach wedi bod yn swyddogaethau pwysig o Gomisiwn y Gyfraith ers ei sefydliad.

Diddymiadau cyfraith statud

Trwy foderneiddio'r llyfr statud a'i wneud yn gliriach, yn fyrrach ac yn fwy hygyrch, mae ein gwaith yn diddymu cyfraith statud yn helpu arbed amser a chostau i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r gyfraith ac eraill sydd angen ei

ddefnyddio, ac mae'n gwneud hi'n haws i ddinasyddion gael at gyfiawnder.

Ers 1965, mae 19 Bil Diddymu Cyfraith Statud wedi cael eu deddfu, gan ddiddymu dros 3,000 o Ddeddfau yn eu cyfanrwydd a miloedd rhagor yn rhannol. Wrth i newid cymdeithasol a thechnolegol barhau i gael ei adlewyrchu yn neddfwriaeth newydd, bydd yr angen am adolygiad systematig ac arbenigol o ddeddfwriaeth hŷn yn parhau.

Cyfuno

Mae dros 200 o Ddeddfau cyfuno wedi cael eu deddfu ers sefydlu'r Comisiwn ym 1965. Nod y gwaith yma yw gwneud cyfraith statud yn fwy hygyrch a dealladwy; gallai gael buddion gwirioneddol ymarferol.

Mae Bil cyfuno yn dwyn ynghyd gwahanol ddeddfau ar yr un pwnc i greu un testun statudol tra'n cynnal effaith y ddeddf gyfredol. Mae'r testun fel arfer yn disodli darpariaethau mewn sawl Deddf neu offeryn gwahanol. Ond mae cyfuniad da yn gwneud llawer mwy na chynhyrchu testun wedi ei diweddarau. Mae effaith gynyddol diwygiadau a chyfraith newydd yn gallu ystumio strwythur deddfwriaeth. Bydd cyfuniadau yn gwneud hyn yn fwy rhesymegol a dealladwy. Bydd hefyd yn ceisio cael gwared ar ddeunydd sydd wedi dyddio, moderneiddio'r iaith a datrys mân anghysondebau neu amwyseddau sydd wedi codi.

Gweithrediad

Yn hanfodol i weithrediad ein Biliau cyfuno a diddymu cyfraith statud mae dull gweithredu seneddol pwrpasol. Mae'r Biliau'n cael eu cyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi a, ar ôl Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi, cânt eu craffu gan y Cydbwyllgor ar Filiau Cyfuno, y'i hapwyntiwyd gan y ddau Dŷ yn benodol i ystyried Biliau cyfuno a diddymu cyfraith statud, cyn dychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi ar gyfer y camau sy'n weddill.

Mae'r broses hwn yn sicrhau bod y Biliau'n treulio'r cyfnod isafswm o amser seneddol ar lawr pob Tŷ ac y dylent bob tro gael eu deddfu unwaith iddynt gael eu cyflwyno.

Ymgynghori

Mae rhai prosiectau'n cychwyn gyda phapur cwmpasu neu drafodaeth, er mwyn ein helpu i ddeall y prif faterion, adnabod y partion â diddordeb a phennu hyd a lled y prosiect. Yna, yn dilyn ymchwil cychwynol, rydym yn cyhoeddi papur ymgynghori yn amlinellu'r problemau gyda'r gyfraith gyfredol ac yn nodi cynigion dros dro i'w ddiwygio.

Rydym yn ymrwymedig i ymgynghori'n llawn gyda phob rhanddeiliad gallai o bosib cael eu heffeithio gan ein cynigion. Mae'r cyfnod ymgynghori'n cynnwys cyfarfodydd gydag unigolion a sefydliadau, digwyddiadau cyhoeddus, cynadleddau a symposia. Rydym yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cynrychiadol er mwyn cyrraedd ein haelodau a rhanddeiliaid.

Pam fod ymgynghori'n bwysig

Ymgynghori yw congfaen ein prosiectau diwygio'r gyfraith, ac mae'n hanfodol i'r canlyniad terfynol. Mae ymgynghori'n eang yn ein caniatáu i gael dealltwriaeth fanwl, gyfredol a thrylwyr o ardal o'r gyfraith, y problemau sy'n codi a pha effaith mae'n rhain yn cael ar y llysoedd, ymarferwyr cyfreithiol a phartion eraill â diddordeb, gan gynnwys busnesau, y sector gwirfoddol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae canlyniad ein proses ymgynghori bron bob tro yn gallu cynhyrchu set fwy effeithiol o argymhellion terfynol.

"Mae ymatebion y rhai yr ydym yn ymgynghori â hwy yn rhan hanfodol o ddeinameg diwygio'r gyfraith."

Stephen Worthington CF, Cadeirydd, Pwyllgor Diwygio'r Gyfraith, Cyngor y Bar, llythyr i'r Cadeirydd.

Rydym yn gofyn i'r sawl yr ydym yn ymgynghori â hwy i gyflwyno ymatebion ffurfiol, ysgrifenedig gan ddefnyddio un o'r sianeli gwahanol, gan gynnwys ar-lein. Caiff yr holl ymatebion y derbyniwn eu dadansoddi a'u hystyried yn ofalus. Cânt eu cyhoeddi, naill ai ar wahân neu yn adroddiad terfynol y prosiect. Trwy gydol y

broses, ble fo'n briodol, rydym yn ymgynghori neu'n gweithio ar y cyd gyda Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn gwneud ein hargymhellion mewn adroddiad i'r llywodraeth. Gall y rhain fod ar ffurf cyfarwyddyd, cyngor i'r llywodraeth, neu argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith. Mewn achosion ble fyddai rhoi hyn ar waith yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd yr adroddiad fel arfer yn cynnwys Bil wedi'i drafftio gan Gwnsler Seneddol. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno gerbron y Senedd, yna'r Llywodraeth sy'n penderfynu a ydynt am dderbyn yr argymhellion a chyflwyno unrhyw Fil angenrheidiol, yn aml gan weithio mewn partneriaeth â'r Comisiynydd, aelodau o'r tîm cyfreithiol perthnasol a'r Cwnsler Seneddol drafftiodd y Bil.

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith cyfredol, gan gynnwys prosiectau o 12fed Raglen Diwygiadau'r Gyfraith a phrosiectau sy'n parhau o raglenni blaenorol. Ar gyfer pob prosiect, rydym yn esbonio pam y credwn fod angen diwygio'r gyfraith yn yr ardal honno, ac yn crynhoi effaith a buddion posib diwygiad.

Prosiectau diwygio'r gyfraith fesul blwyddyn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y prosiectau y bydd Comisiwn y Gyfraith yn gweithio arnynt yn ystod bob blwyddyn. Mae'r rhannau tywyllach yn dynodi ym mha flwyddyn mai disgwyl i'r prosiect redeg. Nid yw'r holl brosiectau yn brosiectau diwygio'r gyfraith llawn amser. Ymarferion cwmpasu yn unig yw rhai ohonynt, cynhelir rhai ohonynt mewn camau, gyda phwyntiau adolygu pan mae'r Comisiwn a'r Adran arweiniol yn pwyso a mesur y sefyllfa ac yn penderfynu a dylid symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Enw'r prosiect	Adran Arweiniol	Dyddiadau allweddol	2014	2015	2016	2017
Anghymhwyster i bledio	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2010 Ymgynghori: Hydref 2010 Cyhoeddi papur: March 2014 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, gwanwyn 2015				
Arfau tanio	Y Swyddfa Gartref	Cychwyn: dechrau 2015 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, dechrau 2016				
Biliau gwerthiannau	Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, haf 2016				
Bywyd gwyllt	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	Cychwyn: 2011 Ymgynghori: Awst 2012 Cwblhau: (ail adroddiad) argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, Hydref 2014				
Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2014 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: gwanwyn 2017				
Cofrestru tir		Cychwyn: diwedd 2014 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: argymhellion a Bil drafft, diwedd 2017				

Enw'r prosiect	Adran Arweiniol	Dyddiadau allweddol	2014	2015	2016	2017
Cyfraith cytundebau yswiriant	Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau	Cychwyn: 2006 Ymgynghori: Camgyfleu, diffyg datguddio a thor gwarantïad gan yr yswiriedig, Gorffennaf 2007 Dyletswyddau ôl-gytundeb a materion eraill – Rhagfyr 2011 Dyletswydd yr yswiriedig busnes i ddatgelu a chyfraith gwarantïadau, Mehefin 2012 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, gaeaf 2014/15				
Cyfraith elusennau, materion detholedig	Y Swyddfa Cymdeithas Sifil, Swyddfa'r Cabinet	Cychwyn: March 2013 Ymgynghori: (1) Ebrill 2014 Ymgynghori: (2) diwedd 2014 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, 2016				
Cyfraith etholiadol		Cychwyn: 2011 Cwblhau'r ymarfer cwmpasu: Rhagfyr 2011 Ymgynghori: diwedd 2014 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, gwanwyn 2017				
Diogelu rhagdaliadau cwsmeriaid rhag ansolfedd y masnachwr	Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: Mehefin 2015 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, haf 2016				
Dirmyg llys	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2011 Ymgynghori: Gwarthuddo'r llys, Awst 2012 Dirmyg yn gyffredinol, Tachwedd 2012 Cwblhau: (trydydd adroddiad) argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, 2015				
Dull dedfrydu	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, haf 2017				

Enw'r prosiect	Adran Arweiniol	Dyddiadau allweddol	2014	2015	2016	2017
Ewyllysiau	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: dechrau 2015 Ymgynghori: i'w gadarnhau Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, dechrau 2018				
Ffioedd trosglwyddo teitl a newid meddiannaeth mewn lesddaliadau	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol	Dechrau: Hydref 2014 Ymgynghoriad: Haf 2015 Cwblhau: Argymhellion interim ar ddiwygio'r gyfraith, Mawrth 2016				
Ffur a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru	Llywodraeth Cymru	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: dechrau 2015 Cwblhau: cyngor i'r Llywodraeth, diwedd 2015				
Gallu meddyliol a chadw	Yr Adran Iechyd	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: ail hanner 2015 Cwblhau: haf 2017				
Gorchmynion ariannol teuluol – gorfodaeth	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2013 Ymgynghori: Ebrill 2015 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, diwedd 2016/dechrau 2017				
Hawl i olau		Cychwyn: gwanwyn 2012 Ymgynghori: Chwefror 2013 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, diwedd 2014				
Herwgio	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2008 Ymgynghori: Medi 2011 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, Hydref 2014				
Niswans cyhoeddus a sarhau gwedduster cyhoeddus	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: 2008 Ymgynghori: March 2010 Cwblhau: argymhellion diwygio'r gyfraith a Bil drafft, diwedd 2014				

Enw'r prosiect	Adran Arweiniol	Dyddiadau allweddol	2014	2015	2016	2017
Rheoli cynllunio a datblygu yng Nghymru	Llywodraeth Cymru	Cychwyn: haf 2014 Ymgynghori: ail hanner 2015 Cwblhau: haf 2017				
Troseddau yn erbyn pobl	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Cychwyn: gwanwyn 2014 Ymgynghori: adroddiad cwmpasu, Tachwedd 2014				

Prosiectau diwygio'r gyfraith

Anghymwyster i bledio

Ffynhonnell: 10fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: 2010

Ymgynghoriad cychwynnol: Hydref 2010 i Ionawr 2011

Cwestiynau pellach: Mai 2014 i Orffennaf 2014

Cwblhad arfaethedig: Gwanwyn 2015

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Pan mae diffynnydd sy'n wynebu erlyniaeth droseddol yn "anghymwys i bledio", ni allant ymrwymo â'r broses oherwydd eu cyflwr meddyliol neu gorfforol. Mae'r diffynnyddion hynny yn cael eu profi gan ddefnyddio proses gwahanol ac os eu cânt yn euog o gyflawni'r drosedd dan sylw, gallant gael eu cadw mewn ysbty neu'u goruchwyllo yn y gymuned.

Mae'r prawf cyfreithiol sy'n cael ei ddefnyddio i benderfynu a yw diffynnydd yn "anghymwys i bledio" yn dyddio o 1836, ac nid yw'r adlewyrchu'n ddigonol datblygiadau ym marn seiciatrig a seicolegol fodern. Ar ben hyn, mae'r gyfraith wedi datblygu fesul tipyn ac yn annibynnol o ddatblygiad yr hawl i "gyfranogiad effeithiol" sy'n llunio rhan o'r warant am wrandawriad teg fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Mae angen diwygio'r prawf fel ei bod yn cyflawni cydbwysedd teg rhwng diogelu diffynnyddion bregus ac yn sicrhau bod hawliau dioddefwyr a diogelwch y cyhoedd yn cael eu trin fel y dylent.

Yn ein hymgyngoriad, fe wnaethom gynigion dros dro i ddiwygio'r gyfraith ar anghymwyster i bledio yng Nghymru a

Lloegr. Ar ôl adolygu'r ymatebion, a chymryd i ystyriaeth y newidiadau i'r system trosedd ers yr ymgynghoriad, aethom yn ôl at randdeiliaid gyda nifer o gwestiynau ychwanegol. Yn eu plith roedd:

- Sut gall fesurau arbennig i wella gallu'r diffynnydd i gymryd rhan mewn treial cael eu hymgorffori'n deg yn y prawf am anghymwyster?
- A ddylai'r broses ar gyfer llysoedd yr ynadon ac ieuencid fod yr un fath â'r un yn Llys y Goron?
- Beth ddylai'r broses fod i ymdrin â diffynnydd sydd wedi cael ei adnabod fel bod yn anghymwys i bledio?
- Mewn gwrandawriad i ymdrin â diffynnydd sydd wedi cael ei adnabod fel bod yn anghymwys, pa faterion sydd angen i'r llys eu hystyried?
- Pa opsiynau dylai'r llys eu cael i ymdrin â diffynnyddion anghymwys?

Bwriad y cwestiynau ychwanegol hyn oedd sicrhau bod ein hargymhellion terfynol i'r Llywodraeth yn ymarferol ac yn adlewyrchiad go iawn o farn y sawl sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn, os yw hyn trwy weithio o fewn y system cyfiawnder troseddol neu'n cael profiad ohono fel dioddefwr, tyst, diffynnydd neu aelod o'r cyhoedd.

Unwaith i ni gwblhau'r prosiect yma, hoffem ddychwelyd i'r prosiect ar wallgofrwydd ac awtomatiaeth. Mae'r prosiect hwn yn cael ei oedi ar hyn o bryd, oherwydd bod ymarferwyr wedi dweud wrthym fod angen diwygio anghymwyster i bledio ar frys.

"Cafodd ymrwymiad y Comisiwn at onestrwydd...ei groesawu'n gynnes gan randdeiliaid y Comisiwn. Mae ei ymagwedd agored a didwyll tuag at ddiwygio'r gyfraith yn esiampl o'r dull onest o lunio polisïau sy'n cael ei nodi yng Nghynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil."

Adolygiad Tair Blynedd Comisiwn y Gyfraith, Adroddiad ar Gam Dau (2014), t12.

Arfau tanio

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Swyddfa Gartref

Cychwyn: Dechrau 2015

Ymgynghori: i'w gadarnhau

Cwblhad arfaethedig: Dechrau 2016

Canlyniad: Adroddiad cwmpasu

Mae'r gyfraith gyfredol ar arfau tanio ac arfau ymosodol eraill wedi'i gynnwys mewn nifer o statudau ac offer statudol gwahanol, sy'n arwain at ddarlun aneglur a dryslyd ac yn creu anawsterau ymarferol sylweddol ar gyfer awdurdodau ymchwilio ac erlynwyr.

Yn rhannol, mae hyn oherwydd bod sut mae arfau wedi cael eu categorioedd mewn cyfraith a'r ddealltwriaeth o hyn mewn cymdeithas ddim bellach yn adlewyrchu'r realiti cyfredol. Er enghraifft, does dim diffiniadau am dermau allweddol megis "hynafol", "ffug", "marwol" a hyd yn oed "arf". Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng troseddau, gan wneud hi'n anodd profi'n glir pa gyhuddiadau sy'n berthnasol mewn achos unigol. Mae'r gyfraith hefyd wedi methu â chadw'n gyfoes gyda thechnoleg fodern, ac yn benodol gydag argaeledd offer sy'n gallu cael ei ddefnyddio i drawsnewid gwrthrychau yn arfau tanio gweithredol.

Mae'r goblygiadau'n ddifrifol ac yn eang. Mae arbenigwyr yn cymryd yn hirach i ddsbarthu arfau, mae erlynwyr yn cael trafferth yn dethol cyhuddiadau priodol ac mae yna esiamplau o ddiffynyddion yn osgoi erlyniad ar bwynt technegol trwy ddadlau'n llwyddiannus bod yr arf yn eu perchnogaeth wedi cael ei adnabod yn anghywir.

Mae'n ddealladwy bod hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder troseddol yn gostwng pan fo diffynyddion yn cerdded yn rhydd oherwydd bod y statudau gyda'r nod o droseddoli'u hymddygiad ddim yn addas i'r diben yn yr oes fodern. Bydd yr ymarfer cwmpasu hwn yn bwrw golwg ar y dirwedd gyfredol, yn adnabod y problemau gyda'r gyfraith ac yn cynnig ystod o bosibiliadau am ddiwygio. Bydd yn ystyried mabwysiadu un statud, yn cynnwys fersiynau wedi'u haddasu a'u symleiddio o'r holl droseddau arfau tanio ac yn darparu diffiniadau clir o'r holl dermau perthnasol.

Biliau gwerthiannau

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau

Cychwyn: Haf 2014

Ymgynghori: I'w gadarnhau

Cwblhad arfaethedig: Haf 2016

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

Mae bil gwerthiannau yn fodd i bobl ddefnyddio'u nwyddau cyfredol fel sicrwydd ar gyfer benthyciad. Esiampl gyffredin yw'r hyn a elwir yn "fenthyciad llyfr log", ble mae person yn trosglwyddo'r ddogfen berchnogaeth ar gyfer ei cherbyd, tra'n parhau i'w ddefnyddio. Mae hyn yn aml yn digwydd pan nad yw'r benthyciwr yn gallu cael credyd o'r prif fenthycwr.

Mae defnydd biliau gwerthiannau wedi cynyddu'n sylweddol, o 2,840 yn 2001 i 38,000 yn 2008, ac mae'n debygol y bydd y defnydd ohonynt yn parhau i dyfu. Golyga cymhlethdod y gyfraith yn yr ardal hon bod cwsmeriaid a busnesau braidd byth yn deall y goblygiadau o ddefnyddio biliau gwerthiannau; mewn unrhyw achos, ychydig o ddiogelwch mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cynnig iddynt.

Gall gyfraddau llog fod dros 500 y cant APR; os yw'r benthyciwr yn methu â gwneud yr ad-daliadau, gellir meddiannu'r eiddo heb rybudd. Mae'n anodd iawn dweud a yw darn o eiddo'n destun bil gwerthiannau, felly mae prynwyr yn gallu cael eu gadael ar eu colled. Mae'r materion hyn oll yn cael effaith anghyfartal ar y sawl mwyaf bregus yng nghymdeithas, sy'n gallu cael trafferth yn cael credyd y'i rheoleiddir yn iawn, ac ar fusnesau bychain gyda phroblemau llif arian tymor byr.

Amlinellir y gyfraith sy'n berthnasol i'r ardal hon yn Neddfau Bil Gwerthiannau 1878 a 1882, ac mae'n gymhleth, yn gyfrin ac wedi dyddio. Mae'n gorfodi costau diangen ar fusnesau, ond yn methu â rhoi'r diogelwch

safonol i gwsmeriaid sy'n cael eu cysylltu gyda mathau eraill o gredyd, megis hurbwrcasu. Rhaid cofrestru pob bil gwerthiannau, ond mae'r system yn un ar bapur ac yn annigonol. Ymddengys bod y cod ymddygiad gwirfoddol daeth i rym yn Chwefror 2011 braidd wedi effeithio ar ymddygiad benthycwyr.

Mae rhesymau da i gredu y byddai'r defnydd o filiau gwerthiannau yn parhau i gynyddu, ac angen cwsmeriaid am ddiogelwch gyda hynny. Mae'r prosiect hwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth a'r broses cofrestru gyfredol, sydd wedi cael ei ddisgrifio yn "anghynladwy" gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gyda'r nod o foderneiddio a symleiddio'r gyfraith. Mae hefyd yn edrych ar y cynnydd cynyddol o filiau gwerthiannau yn y farchnad credyd defnyddwyr, gyda'r gobaith o ddarparu mwy o ddiogelwch i fenthycwyr.

Bywyd gwyllt

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cychwyn: 2011

Ymgynghori: Awst i Hydref 2012

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2014

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith, mewn dau adroddiad

Dros y degawd diwethaf, mae diogelu bywyd gwyllt a rheoli'n treftadaeth naturiol mewn modd cynaliadwy wedi cael eu hystyried yn fwyfwy fel amcanion polisi allweddol ar gyfer y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r fframwaith cyfreithiol yn rhy gymhleth, yn aml yn gwrthdweud rhannau eraill o'r ddogfen ac yn rhy ragnodol.

Mae'r gyfraith yn anodd i bobl a busnesau gael mynediad ati ac i'r sawl sy'n llunio polisiâu i addasu gan greu rhwystrau diangen i reoli bywyd gwyllt yn effeithiol, gan gynnwys gweithredu a gorfodi polisi'r Llywodraeth yn effeithiol. Nid yw dyletswyddau'r DU yn ôl cyfraith ryngwladol a'r UE wedi cael eu rhoi ar waith yn y modd mwyaf syml bob tro.

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar:

- prif gyfarwyddbau'r UE ar adar gwyllt a'r anifeiliaid a phlanhigion hynny sy'n cael eu categorio fel Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, a sut gellir eu hintegreiddio gyda'r gyfraith yn Lloegr;
- dod ag amryw ddulliau gweithredu diogelu domestig i mewn i'r un strwythur deddfwriaethol, a beth allai ddigwydd os a phe byddai corff rheoleiddio'n apelio yn erbyn penderfyniad trwyddedu; a
- rhywogaeth estron oresgynnol: mae'r rhain yn fygythiad sylweddol i ecosystemau yn ogystal â bod yn niweidiol i adeiladau a seilwaith, ac nid yw'r gyfraith gyfredol yn cefnogi rheolaeth neu ddilead amserol ac effeithiol.

Nid yw'r prosiect yn ceisio pennu lefel yr amddiffyniad dylid ei bennu i rywogaethau unigol, ond yn ceisio creu strwythur y gall y Llywodraeth ei defnyddio i wneud penderfyniadau o'r fath yma, wedi'i harwain gan gyngor gwyddonol priodol. Nid yw'r cynnwys ystyriaeth o Ddeddf Hela 2004.

Yn ein hymgyngoriad fe gynigom un statud i ddod â mwyafrif y gyfraith yn ymwneud â bywyd gwyllt at ei gilydd. Yn ogystal â gwneud cynigion penodol ar y modd mwyaf addas o drawsddodi cyfarwydebau'r UE, fe edrychom hefyd ar y system weithredu gyfredol i orfodi deddfwriaeth bywyd gwyllt, gan gynnwys troseddau troseddol a sancsiynau sifil, ac adeg apeliadau.

Yn dilyn cais gan Defra a Llywodraeth Cymru, fe ddaethom â'n gwaith gyda rhywogaethau estron goresgynnol ymlaen ac fe gyhoeddodd ein hadroddiad, Cyfraith Bywyd Gwyllt: Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol, ar 11 Chwefror 2014. Derbyniwyd y rhain gan y Llywodraeth ac mae darpariaethau yn seiliedig ar ein cynigion gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn y Bil Seilwaith.

Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus

Ffynhonnell: 11eg Raglen
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cychwyn: Haf 2014
Ymgynghori: I'w gadarnhau
Cwblhad arfaethedig: Gwanwyn 2017
Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn drosedd cyfraith gyffredin ond does dim diffiniad cynhwysfawr. O ganlyniad mae ffiniau'r drosedd yn aneglur ac er mai ychydig iawn o erlyniadau sydd bob blwyddyn, mae nifer anghymesur

uchel o'r rhain yn destun apêl. Ymhlith yr ardaloedd o anhawster nodwyd mewn apeliadau diweddar mae'r ffaith bod elfen bai y drosedd yn amrywio yn ôl yr ymddygiad sy'n destun erlyniad ac mae yna ansicrwydd o ran atebolrwydd unigolion preifat sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Yn 2010 argymhellodd y Pwyllgor ar y Mater o Ffaint (*Archwiliadau'r Heddlu ar yr Ystad Seneddol*) bod Comisiwn y Gyfraith yn ailedrych ar ei gynig o 1997 i greu trosedd statudol.

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys symleiddio, egluro a chyfundrefnu trosedd cyfraith gyffredin. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gyfraith yn ystyried arferion ble mae swyddogaethau cyhoeddus yn cael eu cyflawni gan unigolion preifat a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod cwrmpas y drosedd ddim yn rhy gynhwysol na ddim yn ddigon cynhwysol.

Cofrestru tir

Ffynhonnell: 12fed Raglen
Adran Arweiniol: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Y Gofrestrfa Tir
Cychwyn: Diwedd 2014
Ymgynghori: I'w gadarnhau
Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2017
Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Sefydlodd Deddf Cofrestru Tir 2002 system weithredu ar gofrestru teitl tir rhydd-ddaliad a rhai prydlesol, a materion sy'n effeithio ar dir o'r math yma. Rhoddwyd Deddf 2002 ar waith yn dilyn prosiect ar y cyd rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r system weithredu cofrestradau tir o bwysigrwydd enfawr a chynyddol. Mae dros 80% o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru, gyda'r Gofrestrfa Tir yn cynnal dros 23 miliwn o deitlau. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad eang o

Ddeddf 2002, gyda'r nod o adolygu ble gellir addasu elfennau o'r Ddeddf yn sgil profiad gyda'i weithrediad. Mae yna dystiolaeth bod angen adolygu neu ddarparu eglurhad ar rai ardaloedd; datgelodd ymgynghoriad y 12fed Raglen ystod o faterion sy'n aml yn dechnegol iawn sy'n aml yn cael goblygiadau masnachol pwysig ar gyfer y Gofrestrfa Tir a'i rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr morgeisi.

Gall sefyllfaoedd ac anghydfodau sy'n defnyddio'r system weithredu cofrestrïadau tir fod yn gymhleth ac yn gofyn am gyngor arbenigol. Mae ansicrwydd yn y system weithredu yn gwneud hi'n anodd cynghori cleientiaid, yn cymhell ymgyfreithiad ac yn cynyddu costau i berchnogion tir.

Yn benodol, mae'r prosiect hwn yn archwilio ystent sicrwydd teitl y Gofrestrfa Tir, cywiro ac addasu'r gofrestr, ac effaith twyll. Mae'r prosiect hefyd yn ailarchwilio'r fframwaith cyfreithiol am drosglwyddiad electronig. Rydym yn ystyried sut gellir harneisio technoleg er mwyn gostwng yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i brosesu ceisiadau tra'n cynnal dibynadwyedd y gofrestr a hyder y cyhoedd ynddi.

Cyfraith cytundebau yswiriant

Ffynhonnell: 9fed Rhaglen

Adran Arweiniol: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau

Cychwyn: Ionawr 2006

Ymgynghori:

Camgyfleu, Diffyg datguddio a Thor Gwarantïad gan yr Yswiriedig, Gorffennaf i Fedi 2007

Dyletswyddau Ôl Gytundeb a Materion eraill, Rhagfyr 2011 i Chwefror 2012

Dyletswydd yr yswiriedig busnes i ddatgelu a chyfraith gwarantïadau, Mehefin i Awst 2012

Cwblhad arfaethedig: Rhagfyr 2014

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Biliau drafft, mewn tri adroddiad

Mae'r gyfraith gyfredol ar gytundebau yswiriant yn dyddio yn ôl i 1906 ac mae gwirioneddol wedi dyddio erbyn hyn. Datblygwyd Deddf 1906 ar adeg pan oedd y person a oedd yn cael ei yswirio yn adnabod ei busnes tra bod yr yswiriwr ddim, a'r nod oedd amddiffyn y diwydiant yswiriant newydd rhag ecsploetiaeth.

Gan weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban, rydym wedi bod yn cynnal adolygiad eang gyda'r bwriad o symleiddio'r gyfraith a sicrhau ei bod yn unol ag ymarferion modern y farchnad.

Mae'r adolygiad yn cael ei wneud mewn camau. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd cyfraith yswiriant y defnyddiwr, ac fe adroddom ar hyn yn 2009, gan arwain at Ddeddf Yswiriant y Defnyddiwr (Datgelu a Chyfleu) 2012. Bydd ein hail adroddiad yn ymdrin â phedwar thema pellach:

- dyletswydd i ddatgelu mewn yswiriant busnes;
- cyfraith gwarantïadau;
- iawndal am daliadau hwyr; a
- datrysiadau'r yswiriwr am dwyll.

Bil Yswiriant y Defnyddiwr (Datgelu a Chyfleu)

Mae'r gyfraith yn unol â Deddf Yswiriant Morol 1906 yn gofyn bod defnyddwyr yn gwirfoddoli gwybodaeth am bopeth byddai "yswiriwr gofalus" yn ystyried i fod yn berthnasol. Bwriad ein prosiect oedd cael gwared ar y ddyletswydd ar ddefnyddwyr i wirfoddoli gwybodaeth i'r yswiriwr a'i ddisodli gyda dyletswydd i ateb cwestiynau'r yswiriwr yn onest ac yn rhesymol.

Cyflwynwyd Bil Yswiriant y Defnyddiwr (Datgelu a Chyfleu), oedd wedi deillio o'n hadroddiad, i'r Senedd gan ddefnyddio'r dull arbennig ar gyfer Biliau annadleuol Comisiwn y Gyfraith. Daeth Deddf Yswiriant y Defnyddiwr (Datgelu a Chyfleu) 2012 i rym ar 6 Ebrill 2013. Mae'r Ddeddf:

- yn dileu dyletswydd y defnyddiwr i wirfoddoli ffeithiau perthnasol. Yn hytrach, rhaid i ddefnyddwyr gymryd gofal rhesymol i ateb cwestiynau'u hyswiriwr yn llawn ac yn gywir ac, os ydyn nhw'n gwirfoddoli gwybodaeth, rhaid iddynt gymryd gofal rhesymol i sicrhau ei fod ddim yn gamarweiniol; ac
- yn rhagnodi datrysiadau'r yswiriwr ble maen nhw wedi cael eu hachosi gan gamgyflead i ymrwymo i gytundeb yswiriant.

Bil Cytundebau Yswiriant

Rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad a Bil ym mis Gorffennaf 2014, fydd yn ymdrin â phedair ardal.

Dyletswydd i ddatgelu mewn yswiriant busnes

Yn ôl y gyfraith gyfredol, mae gan ddeiliaid polisi busnes ddyletswydd i ddatgelu pob manylyn perthnasol sy'n hysbys iddo ynglŷn â'r risg mae eisiau yswirio yn ei erbyn. Mae methiant i wneud hynny yn rhoi hawl i'r yswiriwr "osgoi'r" gytundeb, h.y. i'w drin fel nad oedd wedi bodoli a gwrthod

pob cais. Mae'r ddyletswydd yn aneglur ac weithiau caiff ei ddeall yn wael, ac mae'r cosbau am fethiant yn rhy llym. Mae tystiolaeth nad yw'r ddyletswydd yn gweithio'n dda yn ymarferol.

Rydym yn argymhell diwygiadau er mwyn egluro sut mae disgwyl i ddeiliaid polisi gydymffurfio â'u dyletswydd wrth gyflwyno risg i yswirwyr ac annog yswirwyr i'w helpu, er enghraifft trwy ofyn cwestiynau priodol. Rydym hefyd yn argymhell datrysiadau tecach am unrhyw doriad, gan gymryd bod deiliaid y polisi heb fod yn anonest.

Cyfraith gwarantiadau

Mewn cyfraith yswiriant, mae "gwarantiad" yn derm arbennig o feichus. Yn arferol, mae gwarantiad yn gofyn bod deiliad y polisi yn cymryd camau o ryw fath i leihau risg, er enghraifft gosod larwm byrgler. Y broblem yw bod unrhyw doriad yn rhyddhau'r yswiriwr o atebolrwydd, hyd yn oed os yw wedi cael ei ddatrys. Felly os yw'r larwm byrgler yn methu ac yn cael ei atgyweirio, mae'r yswiriwr dal yn gallu gwrthod cais sy'n digwydd ar ôl i'r larwm gael ei atgyweirio a'i bod yn gweithio fel y dylai. Mae'r yswiriwr hefyd yn gallu gwrthod cais amherthnasol, megis cais llifogydd.

Rydym yn gwneud tri argymhelliad:

- dylai'r yswiriwr dalu unrhyw gais sy'n dod ar ôl i'r toriad gael ei ddatrys;
- dylid dileu cymalau "sail y cytundeb", sy'n trosi pob datganiad ar ffurflen gynigion yn warantiad; a
- ble mae nod term penodol mewn polisi yw rhwystro colled o fath penodol (neu mewn lle penodol neu ar adeg benodol) ni ddylai gael gwared ag atebolrwydd yr yswiriwr i dalu am wahanol fath o golled (neu golled mewn lle gwahanol neu ar adeg wahanol).

lawndaliadau am daliad hwyr

Mae llysoedd Lloegr wedi mynnu mai nad yr yswirwyr sy'n atebol am dalu unrhyw gostau am golled sy'n deillio o'u methiant i

dalau ceisiadau dilys ar amser. Er enghraifft, os yw yswiriwr yn oedi taliad yn afresymol am dair blynedd, a bod busnes yn methu o ganlyniad, nid yw'r yswiriwr yn atebol am y colledion achoswyd gan y methiant. Mae hyn yn wahanol i egwyddorion cytundeb arferol, a gyda chyfraith yr Alban a gydag awdurdodaethau eraill rydym wedi edrych arnynt.

Rydym yn argymhell y dylai fod ar yswirwyr ddyletswydd gytundebol i dalu unrhyw geisiadau yswiriant o fewn amser rhesymol. Fel arall, efallai byddant yn atebol am unrhyw golledion achoswyd gan y toriad hwnnw.

Datrysiadau'r yswirwyr am dwyll

Mae yswirwyr yn arbennig o fregus i dwyll gan ddeiliaid polisïau, ac mae angen i'r gyfraith ddarparu sancsiynau hysbys, cadarn. Yn anffodus, mae'r gyfraith gyfredol yn yr ardal hon yn ddryslyd.

Rydym yn argymhell bod y gyfraith yn cael ei wneud yn gliriach, a'i bod yn darparu datrysiadau statudol clir i yswirwyr. Ni ddylai yswirwyr orfod talu unrhyw ran o gais twyllodrus a dylent allu cymryd bod y cytundeb wedi'i ddileu o'r adeg a gyflawnwyd y twyll. Fodd bynnag, dylent barhau i fod yn atebol am golledion dilys sy'n digwydd cyn y twyll.

Ar gyfer defnyddwyr, byddai'r rheolau hyn yn orfodol. Ar gyfer busnesau, argymhellwn ddull statudol diofyn fel bod partiön yn gallu cytuno ar ddarpariaethau gwahanol yn eu cytundebau pe dymument. Fodd bynnag, rhaid i effaith y termau fod yn glir a rhaid i'r yswiriwr gymryd camau digonol er mwyn tynnu sylw'r yswiriedig at y mater.

Adroddiad terfynol

Bwriedir cyhoeddi'r drydydd adroddiad, sef yr un terfynol, ym mis Rhagfyr 2014, i ymdrin â llog yswiriadwy, atebolrwydd broceriaid am breimymau a'r angen am bolisi morol ffurfiol.

Cyfraith elusennol, materion detholedig

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Y Swyddfa Cymdeithas Sifil

Cychwyn: Ebrill 2013

Ymgynghoriad: Buddsoddiadau cymdeithasol, Ebrill i Fehefin 2014

Gweddill y prosiect, diwedd 2014

Cwblhad arfaethedig: 2016

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar ystod o faterion yn ymwneud â sut mae elusennau'n cael eu ffurfio a sut mae eu gweithgareddau yn cael eu rheoleiddio. Mae un rhan yn edrych ar sut mae elusennau y'u hymgorfforir gan Siarter Frenhinol a Deddf Seneddol yn addasu'u dogfennau llywodraethol, tra bod y gweddill yn ymwneud â materion yn codi o adolygiad yr Arglwydd Hodgson yn 2012 o Ddeddf Elusennau 2006 cyfeiriwyd atom gan y Swyddfa Cymdeithas Sifil yn Swyddfa'r Cabinet. Un o'r materion hyn yw a yw'r gyfraith yn ddigon clir o ran pwerau a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusennau wrth wneud buddsoddiadau cymdeithasol.

Buddsoddiad cymdeithasol

"Buddsoddiad cymdeithasol" yw un sy'n rhoi enillion ariannol ynghyd â helpu'r elusen gyflawn ei hamcanion penodol ar yr un pryd. Mae esiamplau'n cynnwys cynnig benthyciadau llog isel i fusnesau newydd, prynu adeiladau gwag er mwyn eu gosod am bris isel i bobl ddigartref a buddsoddi yn ymchwil meddygol neu dechnolegau gwyrdd.

Mae buddsoddiad cymdeithasol yn ardal bwysig a datblygol i elusennau, sy'n eu galluogi i gyfuno buddsoddiad gyda gwariant uniongyrchol fel eu bod yn

cynhyrchu mwy o adnoddau tra'n gweithio tuag at eu hamcanion. Mae gan elusennau sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau asedau buddsoddiad ar y cyd gwerth £126 biliwn: pe byddai modd defnyddio'r asedau hyn yn fwy effeithiol, byddai yna fudd sylweddol posib i'r cyhoedd.

Mae nifer o elusennau eisoes ynghlwm â buddsoddiad cymdeithasol, ac nid yw'r gyfraith gyfredol yn rhwystr. Ond mae yna bryder bod diffyg eglurdeb ynghylch eu hunion bwerau a dyletswyddau yn golygu bod rhai ymddiriedolwyr elusennau ddim yn hyderus i wneud buddsoddiadau cymdeithasol.

Mae ein papur ymgynghori cyntaf yn cynnig pŵer statudol diofyn newydd i ymddiriedolwyr elusennau wneud buddsoddiadau cymdeithasol, ynghyd â rhestr o ffactorau gall ymddiriedolwyr eu cymryd i ystyriaeth wrth fuddsoddi. Byddai'r pŵer newydd hwn – ynghyd â'r rhestr wirio – yn gwneud hi'n glir i ymddiriedolwyr y dylen nhw ystyried yr holl fuddion posib o fuddsoddiad cymdeithasol, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr enillion ariannol gorau yn unig.

Cyfraith etholiadol

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Swyddfa'r Cabinet

Cychwyn: 2011

Ymgynghoriad cwmpasu: Mehefin i Fedi 2012

Ymgynghori: Diwedd 2014

Cwblhad arfaethedig: Dechrau 2017

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Mae'r gyfraith yn ymwneud ag etholiadau yn hen, yn anghymesur, yn ddryslyd ac ar adegau yn anghyson. Yn enwedig ers 1997, mae'r strwythur gwreiddiol o'r C19eg wedi cael ei ddiwygio a'i addasu er mwyn ymdrin ag etholiadau newydd i sefydliadau

newydd gyda systemau ethol newydd. Yn aml mae pobl nawr yn cael eu gofyn i bleidleisio am ystod o gynrychiolwyr ar yr un pryd. Daw pob math o etholiad gyda set wahanol o reolau a systemau, ac mae cyfuno gwahanol fathau i mewn i un digwyddiad etholiadol yn cyflwyno mwy fyth o haenau i'r gyfraith etholiadol. I gadw i redeg, mae'r system wedi dod i ddibynnu ar gynhyrchiad cyfarwyddyd swmpus, ac ar egni a dyfeisgarwch sylweddol y gweinyddwyr etholiadol.

Mae ein prosiect i ddiwygio cyfraith etholiadol wedi'i rannu yn nhri cham. Yn unol â'r cam cwmpasu, a redodd o Orffennaf 2011 i Ragfyr 2012, rydym nawr yn ystyried diwygio'r gyfraith yn sylweddol yn yr ardaloedd canlynol:

- gweinyddu ymgyrchoedd lleol;
- y gyfraith yn ymwneud â diwrnodau a chyfrifiadau etholiadau;
- cyfuniad o etholiadau (pan mae mwy nag un etholiad yn digwydd ar yr un pryd);
- amserlenni etholiadau;
- herio'r canlyniad a throsteddau; a
- gweinyddiaeth refferenda.

Fe gytunodd y sawl a ymatebodd i'n papur cwmpasu yn ystod yr ymgynghoriad bod angen clir i wneud y canlynol:

- adolygu fframwaith deddfwriaethol y gyfraith etholiadol er mwyn darparu strwythur clir, egwyddorol a chyson;
- adolygu'r gyfraith gweinyddiaeth etholiadol er mwyn rhesymoli, symleiddio a moderneiddio'r rheolau sy'n rheoleiddio rheolaeth etholiadau, er mwyn lleihau'r peryg o gamgymeriadau;
- adnabod ble fyddai'r broses etholiadol – a'r etholaeth – yn buddio o reolau sy'n fwy penodol a chdir; ac
- argymhell sut gallai'r rheolau cyfredol fod yn llai cyfarwyddol ac yn fwy hyblyg er mwyn lleihau cymhlethdod a nifer y

cyfreithiau, ac adlewyrchu diddordebau gorau'r etholwyr.

Mae'r diwygiadau hefyd yn edrych ar yr amgylchiadau pan allai gweinyddiaeth etholiadol gael ei herio. Ychydig gyfle yn unig sydd yn y system gyfredol i ymchwilio, a llunio casgliadau, o gŵyn am sut redwyd etholiad os nas effeithiwyd ar ganlyniad yr etholiad. Ni fydd y diwygiadau yn ymdrin â materion o natur wleidyddol yn sylfaenol, megis etholfraint, systemau pleidleisio, ffiniau etholiadol a chyllido cenedlaethol pleidiau gwleidyddol.

Y trydydd cam fydd ysgrifennu Bil drafft, ar ôl i ni gyflwyno adroddiad o'n hargymhellion ddiwedd 2015.

Ers dechrau'r ail gam, mae'r prosiect wedi bod yn brosiect teir-ran gyda Chomisiynau y Gyfraith yn Alban a Gogledd Iwerddon.

Diogelu rhagdaliadau cwsmeriaid rhag ansolfedd y masnachwr

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau

Cychwyn: Hydref 2014

Ymgynghori: Mehefin 2015

Cwblhad arfaethedig: Hydref 2016

Canlyniadau: Astudiaeth gwmpasu

Darganfuwyd mewn arolwg gan Llais Defnyddwyr yn 2009 bod tua 24.5 miliwn o drafodion rhagdaliadau yn cael eu gwneud bob blwyddyn yn y DU gan tua 20 miliwn o ddefnyddwyr. Mae rhagdaliadau'n boblogaidd oherwydd gallant gael eu defnyddio i gyllido ar gyfer gwariannau mawr, megis Nadolig, neu fel blaendal am bryniannau pwysig fel ceir neu geginau newydd. Ar raddfa lai, mae talebau a chardiau rhodd yn datrys y broblem o ddewis yr anrheg "gywir". Y buddion i fusnesau yw bod rhagdaliadau'n darparu ffynhonnell rad o gyfalaf gweithio ac yn

gallu rhwymo defnyddwyr i ddefnyddio brand penodol.

Fodd bynnag, mae methdaliadau diweddar masnachwyr adnabyddus wedi pwysleisio'r diffyg diogelwch i ddefnyddwyr sy'n gwneud y mathau yma o daliadau. Yn dilyn cwmp clwb arbedion Nadolig Farepak yn 2006 roedd nifer o ddefnyddwyr ar eu colled. Yn fwy diweddar, yn ôl y sôn olygodd cwmp Comet bod defnyddwyr wedi colli £4.7 miliwn mewn talebau rhodd nas defnyddiwyd.

Pan mae masnachwr yn dod yn fethdaliadol, mae'r gyfraith yn gosod hierarchaeth lem o gredydwyr i'w talu o unrhyw asedau sy'n weddill. Mae defnyddwyr, sy'n cael eu cyfri fel credydwyr ansicredig, yn agos iawn at waelod y rhestr.

Mae'r diffyg amddiffyniad hwn yn achosi pryder. Mae'r materion yn gymhleth yn mynd i wraidd y system fethdaliad. Yn 1982, fe wrthododd adroddiad Cork mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr, gan nodi bod cwsmeriaid fel rheol yn colli symiau bychan a fforddiadwy tra bod yr effaith ar gyflenwyr yn gallu bod yn drychinebus. Ond yn dilyn cwmp Farepak disgrifiodd Pwyllgor Dethol y Trysorlys y rhwyd achub gyfredol yn "annigonol ac anghyflawn". Cynhaliodd y Swyddfa Masnach Deg arolwg, a gofynnodd gweinidogion i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ystyried darparu mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr.

Nid ydym yn credu y bydd y broblem yn diflannu. Os unrhyw beth, o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol, gallai methdaliadau masnachwr gynyddu. Mae yna hefyd resymau da dros roi mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr, nid yn unig i gynnal hyder defnyddwyr yn y cynnyrch yma. Ond rhaid i ni gadw mewn cof y bydd mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr wrth reswm yn arwain at lai o amddiffyniad i eraill.

Bydd y prosiect yn ystyried ffyrdd posib ymlaen, gan gasglu tystiolaeth empirig ynglŷn ag ystent y broblem ac ymgynghori

ar ddatrysiadau posib. Rydym hefyd yn edrych ar wahaniaethau posib yn yr ymagwedd i'r mater yng nghyfraith yr Alban a chyfraith Cymru a Lloegr.

Dirmyg Ilys

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Mai 2012

Ymgynghori:

Gwarthruddo'r Llys, Awst 2012 i Hydref 2012

Dirmyg Ilys yn gyffredinol, Tachwedd 2012 i Chwefror 2013

Cwblhad arfaethedig: 2015

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith, mewn pedwar adroddiad

Gwarthruddo'r Ilys

Ym mis Awst 2012, fe gyhoeddodd bapur ymgynghori ar warthruddo'r Ilys – ffurf hanesyddol o ddirmyg Ilys yn cynnwys ymddygiad sy'n debygol o danseilio gweinyddiaeth cyfiawnder neu hyder y cyhoedd yn y llysoedd a'r barnwyr. Cafodd y gwaith yma ei symud ymlaen er mwyn bwydo i mewn i drafodaethau'r Llywodraeth ar y Bil Trosedd a Llysoedd. Derbyniwyd ein hargymhelliad i diddymu'r drosedd fel diwygiad i'r Bil ym mis Rhagfyr 2012.

Rhoddydd diddymiad y drosedd o warthruddo'r Ilys mewn grym yn Neddf Trosedd a Llysoedd 2013.

Dirmyg Ilys – ardaloedd eraill

Mae dirmyg Ilys yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau ac ymddygiadau sy'n tanseilio neu fygwth tanseilio cwrs cyfiawnder. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â dirmyg Ilys yn eang iawn. Yn ein papur

ymgynghori fe benderfynom felly i ganolbwyntio ar ddetholiad o feysydd penodol, gan gynnwys:

- Dirmyg trwy gyhoeddiad: Edrychom ar y dull gorau o gael cydbwysedd rhwng yr hawl i achos teg a'r hawl i ryddid mynegiant.
- Effaith cyfryngau newydd: Mae cryn dipyn o'r gyfraith yn dyddio o gyfnod cyn y rhyngwryd, ac mae yna bryderon ynghylch a yw'n gallu ymdrin yn effeithiol â dirmygion yn cynnwys cyfryngau newydd ac yn benodol cyfryngau cymdeithasol.
- Dirmygion gan reithwyr: Edrychom ar y mater o reithwyr yn defnyddio ffynonellau allanol i ddod o hyd i wybodaeth am yr achos maen nhw'n gwranddo arno. Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud, hawl y diffynnydd i achos teg a hawliau'r rheithwyr eu hunain.
- Dirmyg yn wyneb y llys: Mae'r gyfraith yn yr ardal hon yn ddryslyd, gyda bylchau ac anghysondebau rhwng y darpariaethau sy'n berthnasol i Lys y Goron a'r rhai sy'n berthnasol i lysoedd yr ynadon.
- Cyfyngiadau adrodd: Mae'r gyfraith gyfredol yn rhoi'r pŵer i'r llysoedd ohirio adrodd yn y llysoedd pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi gwneud drwg i'r achos, ond does dim system ffurfiol i gyfathrebu'r gorchmynion hyn i'r cyfryngau.

Camymddygiad Rheithwyr a Chyhoeddiadau ar y Rhyngwryd

Yn yr adroddiad cyntaf hwn ar ôl yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, fe wnaethom argymhellion gan gynnwys:

- Gwneud hi'n drosedd i reithwyr gynnal ymchwil gwaharddedig.
- Cyflwyno eithriad rhag atebolwydd dirmyg ar gyfer cyhoeddwr yn unol â deunydd ar-lein wedi'i rhoi mewn archif.
- Gwneud eithriad cyfyngedig i'r gwaharddiad ar reithwyr yn datgelu'u trafodaethau ble gallai bwysleisio camweinyddiad cyfiawnder, neu ble maen nhw'n cymryd rhan mewn ymchwil rheoledig.

Daeth y ddau argymhelliad cyntaf i rym yn ddeddfwriaethol yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd, a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Chwefror 2014.

Adrodd yn y llysoedd

Fe gyhoeddom ein hail adroddiad ym mis Mawrth 2014, gan argymhell:

- bod pob gorchymyn gohirio ar adrodd yn y llysoedd yn gallu cael eu postio ar un wefan sydd ar gael i'r cyhoedd (fel sydd eisoes yn digwydd yn yr Alban), ac ychwanegu gwasanaeth â thâl ble gall y defnyddwyr gael mynediad at delerau'r gorchymyn a chofrestru am e-byst awtomatig yn rhoi gwybod am unrhyw orchmynion newydd.

Adroddiad terfynol

Bydd yr adroddiad sy'n weddill yn y prosiect hwn yn mynd i'r afael â dirmyg yn wyneb y llys ac agweddau o ddirmyg trwy gyhoeddiad sydd ddim wedi'u cynnwys eisoes yn ein hadroddiadau blaenorol.

Dull dedfrydu

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Haf 2014

Ymgynghori: I'w gadarnhau

Cwblhad arfaethedig: Haf 2017

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bill drafft

Mae'r gyfraith ar ddedfrydu'n effeithio ar bob achos troseddol, a chaiff ei ddefnyddio mewn cant a mil o achosion a miloedd o apeliadau bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae diffyg cysondeb ac eglurdeb yn y gyfraith: mae wedi'i lledaenu ar draws statudau di-ri, ac mae diweddariadau cyson yn cael eu cyflwyno ar adegau gwahanol gan wahanol offer statudol ac mae ganddynt amrywiaeth o drefniadau pontio.

Mae hyn yn gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosib ar adegau, i ymarferwyr a'r llysoedd ddeall y gyfraith dedfrydu gyfredol. Gall hyn arwain at oedi, apeliadau drud a dedfrydau anghyfreithlon. Darganfuwyd mewn arolwg o 400 achos Llys Apêl o 2012 gan yr arbenigwr dedfrydu Robert Banks bod 262 yn apeliadau yn derbyn dedfrydau ac o'r rhain, roedd 95 yn ymwneud â dedfrydau oedd wedi cael eu pasio'n anghyfreithlon i Lys y Goron. Ysgrifennodd Banks, "Mae'r ffigwr [hwn] yn dangos bod dim modd i ni ddweud bellach bod y system dedfrydu'n gweithio'n iawn. Mae achosion ers hynny wedi dynodi bod y ffigurau hyn ddim yn annodweddiadol."

Ymddengys bod bron pawb sy'n gweithio yn y maes, ar y fainc ac yn y byd academiaidd yn gytûn bod angen diwygio'r gyfraith yn yr ardal hon ar frys. Mae'r llysoedd wedi cwyno dro ar ôl tro am gymhlethdod y dull dedfrydu modern. Mae tystiolaeth gref bod y nifer uchel o ddedfrydau anghyfreithlon yn ganlyniad

uniongyrchol o analluedd tribiwnlysoedd dedfrydu i ddehongli'r darpariaethau perthnasol. Mae hyn yn tanseilio hyder y cyhoedd yn dedfrydu ar yn costio cryn dipyn o arian cyhoeddus i'w gywiro ar apêl.

Ein nod gyda'r prosiect hwn yw cyflwyno un statud dedfrydu bydd yn gweithredu fel yr unig fan galw ar gyfer tribiwnlysoedd dedfrydu. Bydd yn amlinellu'r darpariaethau perthnasol mewn modd clir a rhesymegol, ac yn sicrhau bod pob diweddariad i'r dull dedfrydu yn gallu cael ei weld mewn un lle. Nid nod y prosiect yw ymyrryd gyda'r dedfrydau isafswm gorfodol neu gyda thariffau dedfrydu yn gyffredinol. Ni fyddwn yn cyffwrdd â'r rhain, ond bydd y broses o'u dyfarnu yn cael ei symleiddio a'i wella'n fawr.

“Gallaf ddweud heb unrhyw amheuaeth yn fy marn i bod Comisiwn y Gyfraith yn parhau i chwarae rôl allweddol yn helpu llunio cyfraith trosedd yng Nghymru a Lloegr.”

Keir Starmer CF, Cyfarwyddwr Erlyniad Cyhoeddus. Tystiolaeth i Adolygiad Tair Blynedd Comisiwn y Gyfraith yn 2013.

Ewyllysiau

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Dechrau 2015

Ymgynghori: I'w gadarnhau

Cwblhau: Dechrau 2018

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Amcangyfrif bod 40% neu ragor o oedolion heb baratoi ewyllys, ac mewn sefyllfaoedd ble mae ganddyn nhw un, mae cyflwr y gyfraith yn aml yn golygu y bydd yn annilys. Ble does dim ewyllys neu ble mae ewyllys yn annilys, y rheolau diewyllysedd

sy'n berthnasol; offeryn swrth yw'r rhain sydd ddim yn gallu disodli dymuniadau person. Mae rhai unigolion a chyrrff penodol sydd ddim yn gallu buddio yn ôl y rheolau, gan gynnwys y sawl sy'n cyd-fyw gyda'i gilydd ac elusennau. Mae'n bwysig felly bod pobl yn gwneud ewyllys a bod y gyfraith yn cefnogi hyn.

Mae'r prif statud ar ewyllysiau, Deddf Ewyllysiau 1837, yn dyddio o Oes Fictoria. Mae'r gyfraith yn ymwneud â gallu ewyllysiol, y gallu meddylio i lunio ewyllys, yn deillio o achos o 1870. Mae pryder bod y gyfraith gyfredol yn anghymell rhai pobl rhag gwneud ewyllys, bod hi ddim yn gyfredol â datblygiadau cymdeithasol a meddygol, a bod hi o bosib ddim yn gweithio yn y fath fodd i weithredu yn y modd gorau ar ddymuniadau person ar ôl iddynt farw. Mae wedi cael ei feirniadu am fod yn anodd ei ddeall a'i roi ar waith, a weithiau am fod yn anymarferol. O ran gallu meddyliol, mae hyn yn cynrychioli problem gynyddol, oherwydd bod amodau sy'n effeithio ar allu yn dod yn fwy cyffredin wrth i bobl fyw'n hirach.

Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r gyfraith ar ewyllysiau, gan ganolbwyntio ar bedair prif ardal sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd o bosib angen eu diwygio: gallu ewyllysiol, trefniadau ffurfiol ar gyfer ewyllys dilys, addasu ewyllys, ac ewyllysiau ar y cyd. Bydd yn ystyried a ellir diwygio'r gyfraith i annog a hwyluso'r broses o wneud ewyllys yn yr 21ain ganrif: er enghraifft, a ddylid ei ddiweddarau i gynnwys datblygiadau yn nhechnoleg a meddygaeth. Bydd hefyd yn ceisio gostwng y tebygolrwydd o ewyllysiau'n cael eu herio ar ôl marwolaeth, a nifer y sefyllfaoedd o ymglyfreithiad. Mae ymglyfreithiad o'r fath yn ddrud, yn gallu rhannu teuluoedd ac yn achosi llawer o straen i'r sawl sy'n galaru.

Ffioedd trosglwyddo teitl a newid meddiannaeth mewn lesddaliadau

Ffynhonnell: Cyfeiriad Gweinidogol
Adran Arweiniol: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
Dechrau: Hydref 2014
Ymgynghoriad: Haf 2015
Dyddiad cwblhau disgwylidig (interim): Mawrth 2016
Canlyniad: Argymhellion interim ar ddiwygio'r gyfraith

Mae'r prosiect yn edrych ar delerau lesddaliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n lesio eiddo i dalu ffi pan fydd teitl yr eiddo hwnnw'n cael ei drosglwyddo neu pan fydd newid mewn meddiannaeth.

Mae'r mathau hyn o delerau lesddaliadau i'w gweld mewn cartrefi ymddeol a datblygiadau tebyg gan amlaf. Codwyd pryderon gyda'r Swyddfa Masnachu Teg ynghylch y ffordd yr oedd y rhain yn gweithio. Mae'r ffi'n cael ei chyfrifo fel canran o'r pris gwerthu neu'r pris prynu gwreiddiol fel rheol. Mae modd codi ffioedd pan fydd teitl yn cael ei drosglwyddo'n wirfoddol, er enghraifft pan fydd eiddo'n cael ei werthu, neu'n anwirfoddol, er enghraifft, o dan orchymyn trosglwyddo eiddo. Mae modd diffinio newid meddiannaeth yn eang, ac mae modd codi ffioedd fwy nag unwaith dros gyfnod y les, er enghraifft, os oes rhaid i'r meddiannydd fynd i'r ysbyty am gyfnod.

Daeth y Swyddfa Masnachu Teg i'r casgliad y gallai'r telerau fod yn annheg, ac nad oedd digon o dryloywder, yn arbennig mewn deunyddiau gwerthu. Gall natur y telerau fod yn aneglur, ac mae'n ymddangos fod rhai'n disgyn y tu allan i'r systemau rheoleiddio presennol. O ganlyniad, nid oes modd i rywun sy'n lesio eiddo herio un o'r telerau na swm y ffi'n effeithiol.

Mewn ymateb i adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg, ymrwymodd rhai landlordiaid, yn wirfoddol, i ddefnyddio'r telerau. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Masnachu Teg hefyd yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ystyried mesurau pellach, gan gynnwys diwygio'r deddfwriaeth.

Mae ein prosiect yn ystyried y problemau y mae telerau mewn lesedd preswyl yn eu hachosi'n gyffredinol, sy'n mynnu bod lesddeiliad yn talu ffi am drosglwyddo teitl neu newid meddiannaeth, yn y sector cartrefi ymddeol a marchnadoedd tebyg yn benodol.

Rydym yn edrych ar sut mae'r gyfraith bresennol yn rhoi sylw i'r problemau a nodir ac yn ystyried a oes angen rhagor o warchodaeth ar gyfer lesddeiliaid, er enghraifft, drwy'r canlynol:

- deddfwriaeth telerau annheg,
- cyfraith landlordiaid a thenantiaid, a/neu
- weithdrefn trawsgludo.

Rydym hefyd yn ystyried pa effaith y gallai rhagor o warchodaeth ei chael.

Ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru

Ffynhonnell: 12fed Raglen
Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Swyddfa Cymru, Llywodraeth Cymru
Cychwyn: Haf 2014
Ymgynghori: Dechrau 2015
Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2015
Canlyniad: Cyngor i'r Llywodraeth

Mae problemau gyda ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru wedi bod yn amlwg am beth amser, ac maen nhw'n dod yn fwy difrifol. Mae'r broses o ddatganoli wedi arwain at sefyllfa ble mae hi'n anodd i weithwyr proffesiynol a'r

cyhoedd gael mynediad at y gyfraith yn ymwneud â Chymru.

Fe drosglwyddodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 bwerau gweithredol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy drosglwyddiad orchymyn swyddogaethau. Trosglwyddwyd pwerau eraill i'r Cynulliad trwy statud. Yn 2007, trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn o weinidogion Cymru, a chyflwynwyd trefniadau i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol naill ai trwy statud neu drwy orchymyn cydsyniad deddfwriaethol. Newidiodd y system yn 2011, ac erbyn hyn mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau ehangach i wneud deddfau mewn meysydd datganoledig.

O ganlyniad, gall fod yn anodd iawn i chwilio a deall y gyfraith mewn meysydd datganoledig. Mae'r broblem yn benodol o ddifrifol mewn perthynas â phwerau gweithredol, ond yn sicr nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain. Er enghraifft, ar wyneb statud, ymddengys mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n meddu ar y pŵer ond mewn gwirionedd mae'r pŵer wedi cael ei drosglwyddo i weinidogion Cymru. fodd bynnag, ni fydd hyn yn amlwg heb ymchwil manwl. Mae'n bosib bod statudau cyn datganoli wedi cael eu haddasu yn sgil hynny, felly maen nhw nawr yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, rhai sy'n berthnasol i Loegr a rhai sy'n berthnasol i Gymru yn unig.

Bydd y prosiect hwn yn gynghorol yn unig, a ni fydd ein hadroddiad terfynol yn cynnwys Bil drafft. Byddwn yn ystyried ffyrdd o symleiddio'r ddeddfwriaeth gynharach ac o'i wneud yn fwy hygyrch, a sut gallai deddfwriaeth yn y dyfodol leihau'r problemau, yn hytrach na'u cynyddu.

“Ers ei sefydliad yn 1965 mae Comisiwn y Gyfraith wedi ennill enw da haeddiannol am ansawdd ei waith a manyldeb ei ymagwedd at ddiwygio'r gyfraith.”

Maura McGowan CF, Cadeirydd y Bar. Llythyr i'r Cadeirydd, Rhagfyr 2012.

Gallu meddylion a chadw

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Yr Adran Iechyd

Cychwyn: Haf 2014

Ymgynghori: Ail hanner 2015

Cwblhad arfaethedig: Haf 2017

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Mae Deddf Gallu Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith i asesu os oes gan bobl y gallu angenrheidiol i wneud penderfyniadau penodol, a ble nad oes ganddynt y gallu hwnnw, i eraill wneud y penderfyniadau hynny iddynt gyda'u diddordebau gorau hwy mewn golwg. Yn 2004, sefydlodd achos gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop bod hi'n bosib bod cymryd penderfyniadau gyda diddordebau gorau peron mewn golwg ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau preswyl a chymdeithasol yn gallu golygu colled rhyddid yn ôl Erthygl 5 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Darganfuwyd fod y DU wedi torri amodau'r Erthygl, oherwydd mewn amgylchiadau o'r fath nid oedd Cymru a Lloegr yn darparu am system ddigonol i awdurdodi ac adolygu'r golled o ryddid.

Yn 2007, mewn ymateb i'r darganfyddiad, cyflwynwyd y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DOLS) i mewn i Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Fe'u cyflwynwyd er mwyn llenwi'r bwch adnabuwyd yn yr achos, ac er mwyn sicrhau bod sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu rheoleiddio'n gywir yn unol â hawliau dynol person. Mae'r DOLS yn berthnasol i'r golled o ryddid sy'n digwydd mewn ysbytai neu gartrefi gofal yn unig. os yw hawl person i ryddid yn cael ei gyfaddawdu mewn sefyllfaoedd eraill, rhaid i'w golled/cholled gael ei awdurdodi a'i goruchwyllo gan y Llys Amddiffyn.

Mae darpariaethau'r DOLS wedi cael eu beirniadu ers iddynt gael eu cyflwyno am

fod yn rhy gymhleth a biwrocraidd. Yn ôl y sôn, nid yw staff yn eu deall yn aml ac mae yna ddryswch am y gwahaniaethau rhwng pwerau Deddf Iechyd Meddwl 1983 a'r DOLS.

Ym mis Mawrth 2014 daeth pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin oedd yn cynnal archwiliad ôl-ddeddfwriaethol o'r Ddeddf Gallu Meddyliol i'r casgliad bod y DOLS ddim yn "addas i'r diben" a gofynnwyd iddynt gael ei disodli. Argymhellodd y pwyllgor hefyd y dylid ymestyn y system newydd i gynnwys pobl gyda threfniadau llety â chymorth, nid pobl mewn ysbytai a chartrefi gofal yn unig. Yn fuan ar ôl hynny, darganfuwyd gan y Goruchaf Lys y byddai person yn colli'i ryddid mewn mwy o sefyllfaoedd nag oeddent wedi ystyried eisoes.

Mae'r Adran Iechyd wedi derbyn bod yna anawsterau gyda'r DOLS ac wedi cyhoeddi amryw fesurau i geisio gwella sut mae'r amddiffyniadau'n gweithredu.

Mae ein prosiect yn ystyried sut dylid awdurdodi a goruchwyllo'r golled o ryddid mewn sefyllfaoedd heblaw am ysbytai a chartrefi gofal, ble mae'n bosib y byddai hawliau Erthygl 5 fel arall yn cael eu torri. Yn ychwanegol at ystyried y sefyllfaoedd hyn, bydd y prosiect hefyd yn asesu goblygiadau'r gwaith yma i'r DOLS er mwyn sicrhau bod unrhyw beth perthnasol sy'n cael ei ddysgu hefyd yn cael ei rannu.

"Mae'r Comisiwn yn parhau i gyflawni swyddogaeth bwysig o fewn y system gyfiawnder ac mae ymrwymiad y sawl sy'n gweithio i'r Comisiwn i barhau i wneud hyn er gwaetha'r holl bwysau yn nodedig."

Adolygiad Tair Blynedd o Gomisiwn y Gyfraith, Adroddiad ar Gam Dau (2014), t11.

Gorchmynion ariannol teuluol – gorfodaeth

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: Mawrth 2014

Ymgynghori: Ebrill 2015

Cwblhad arfaethedig: Gaeaf 2016/17

Canlyniad: Argymhelliad ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Mae gan y llysoedd bwerau statudol i orchymyn pobl i wneud darpariaethau ariannol ar gyfer eu plant neu ar gyfer cyn briod neu bartner sifil yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil. Weithiau, mae sicrhau'r gorchmynion hyn yn golygu cost ariannol ac emosiynol sylweddol i'r sawl sydd ynghlwm. Ond gellir dwysau'r niwed yma – gyda hyn yn cael effaith hir dymor ar oedolion a phlant – os nad yw'r gorchmynion yn cael eu gorfodi.

Mae'r gyfraith gyfredol ar orfodi gorchmynion ariannol teuluol wedi cael ei ddisgrifio fel "anobeithiol o gymhleth ac yn drefniadol drofaus". Mae'r mecanweithiau gorfodi wedi'u cynnwys mewn amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth ac mae aelodau o'r cyhoedd, ymarferwyr cyfreithiol a hyd yn oed y llysoedd yn cael trafferth yn deall sut maen nhw'n gweithio. Mae'n bosib bod y gyfraith yn rhwystro rhai trefniadau synhwyrol rhag cael eu rhoi ar waith.

Bydd y prosiect hwn yn edrych ar y gwahanol ddulliau o orfodi gorchmynion ariannol teuluol sy'n cael eu gwneud yn unol â Deddf Achosion Priodasol 1973, Deddf Partneriaeth Sifil 2004 a Deddf Plant 1989. gallai ddiwygio'r gyfraith gynnig set glir o reolau a'r gallu i gael mynediad at yr ystod lawn o opsiynau gorfodi, heb yr angen am wrandawiadau lluosog. Byddai'n galluogi i'r llys ystyried gorfodaeth yn erbyn ystod eang o asedau ac yn caniatáu i'r dull o weithredu gorfodaethau i weithio'n effeithiol pan mai symiau bychan sy'n

ddyledus, fel bod pobl ddim yn gorfod aros tan fod ôl-ddyledion mawr yn ddyledus cyn gorfodi gorchmynion o'u plaid.

Bydd cyfraith well yn yr ardal hon yn helpu sicrhau bod arian sydd wedi cael ei orchymyn i'w dalu i gefnogi plant ac oedolion yn cael ei dalu. Byddai hefyd yn cyfyngu ar yr effeithiau niweidiol o gyfreithiad parhaus i deuluoedd, gan alluogi i'r partïon symud ymlaen gyda'u bywydau. Byddai proses gorfodi symlach a mwy greddfoll yn cynorthwyo unigolion a gallai esmwytho'r pwysau ar system y llysoedd ac asiantaethau cyngor cyfreithiol.

Rydym ar hyn o bryd yn archwilio cyfraith ac arferion yn yr ardal yma yn sgil datblygiadau, yn benodol yn system y llysoedd, sydd wedi digwydd ers i ni gyflwyno'r prosiect hwn yn ein rhaglen waith. Bydd hwn yn hysbysu cwmpas y prosiect a'n hamserlen arfaethedig i'w gwblhau.

Hawl i olau

Ffynhonnell: 11eg Raglen

Adran Arweiniol: Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol

Cychwyn: Gwanwyn 2012

Ymgynghori: Chwefror i Fai 2013

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2014

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bill drafft

Mae hawliau i olau yn caniatáu i ddeiliaid tir dderbyn golau naturiol mewn adeiladau ar eu tir. Mae hawliau fel hyn yn werthfawr: maen nhw'n cynnig sicrwydd y bydd eiddo yn parhau i fwynhau golau naturiol, gan gynyddu'i defnydd, gwerth a dymunoldeb.

Ni all perchnogion adeiladau cyfagos ymyrryd yn sylweddol â'r hawl i olau, er enghraifft trwy godi adeilad sy'n blocio'r golau, heb gydsyniad perchennog y tir. Ble mae adeilad yn ymyrryd â'r hawl i olau, gall y llys orchymyn ei fod yn cael ei ddinistrio, neu ddyfarnu iawndal sylweddol. Gall

berchnogion tir lwyddo i rwystro datblygiad, hyd yn oed os ydynt yn codi'r mater ar ôl i'r gwaith adeiladu gychwyn.

Er bod gan hawliau i olau oblygiadau ymarferol pwysig, maen nhw fel arfer yn codi ar ôl defnydd hir yn hytrach na thrwy unrhyw gytundeb cyflyn rhwng perchnogion tir. Anaml mae hawliau wedi'u cofrestru. O ganlyniad, yn nifer o achosion bydd y sawl sy'n dioddef neu'n buddio o'r hawliau hyn yn anymwybodol o'u bodolaeth. Nid yw'r system gynllunio yn cymryd hawliau preifat o'r math yma i ystyriaeth felly mae hawliau i olau yn gallu effeithio ar ddatblygiad hyd yn oed pan fod caniatâd cynllunio wedi cael ei sicrhau.

Roedd ein papur ymgynghori'n archwilio a oedd y gyfraith gyfredol sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau a gorfodi hawl i olau yn darparu cydbwysedd digonol rhwng y sawl sy'n buddio o'r hawliau hynny a'r sawl sydd eisiau datblygu tir, ac roedd yn gwneud cynigion dros dro i fynd i'r afael â phroblemau canfyddiedig ac anghydraddoldebau yn y gyfraith.

Derbynion dros 100 o ymatebion i'r papur ymgynghori, gyda nifer ohonynt yn fanwl iawn. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion hynny ac rydym yn eu defnyddio i gwblhau'n hadroddiad a'u hargymhellion polisi.

Herwgipio

Ffynhonnell: 10fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: 2011

Ymgynghori: Medi i Ragfyr 2011

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2014

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

Mae herwgipio yn drosedd cyfraith cyffredin crëwyd gan farnwyr yn yr ail ganrif ar bymtheg. Caiff ei ddiffinio fel ymosodiad neu dresmasiad ar ryddid

personol, sy'n cynnwys un person yn cymryd neu'n cario i ffwrdd person arall, gan ddefnyddio grym neu dwyll, heb ganiatâd a heb reswm cyfreithiol.

Mae'r diffiniad hwn yn broblematig mewn dau fodd:

- Oes rhaid i'r golled o ryddid ddigwydd pan fod y dioddefwr yn cael ei gymryd neu ei gario i ffwrdd, neu a yw'n ddigonol os yw'r dioddefwr yn cael ei gymryd rhywle a'n cael ei gaethiwo yno?
- Beth mae'r gofyniad o rym neu dwyll yn ychwanegu at y gofyniad o ddiffyg cydsyniad?

Mae'r ddwy broblem yma'n codi pan fod plentyn ifanc neu oedolion â nam meddyliol yn cael ei denu i leoliad ac yna'n cael ei chaethiwo. Doedd gan y dioddefwr dim gallu i gydsynio ond, gan bod nhw heb gael eu cymryd "gan ddefnyddio grym neu dwyll", does dim herwgipio wedi digwydd, yn hytrach camgarcharu.

Yn Llys y Goron yn unig ellir gwrando ar achosion herwgipio a chamgarcharu. Ond er bod gan y drosedd dedfryd carchar diderfyn, chwe mis neu lai yw tua 20 y cant o'r dedfrydau ar gyfer y troseddau hyn.

Yn ein hymgyngoriad, fe gynigom dros dro y dylai herwgipio a chamgarcharu gael eu disodli gan un drosedd neu ragor a'u hamlinellu mewn statud, ble:

- na ddylai grym neu dwyll fod yn ofyniad ar wahân, er gallai fod tystiolaeth o ddiffyg cydsyniad; ac
- ni ddylai fod ofyniad bod y troseddwr yn mynd gyda'r dioddefwr.

Ac fe godom y cwestiynau canlynol ar gyfer ymgyngoriad:

- A ddylai fod un trosedd neu ddau?
- Os oes dau drosedd, oes angen nodi gwahaniaeth rhwng caethiwo a symud, neu rhwng caethiwed syml a mwy difrifol?

- A ddylai'r herwgipiwr allu dadlau yn dweud eu bod nhw wir yn meddwl bod y dioddefwr yn cydsynio, neu oes rhaid i'r gred honno fod yn rhesymol?
- A ddylai'r drosedd neu droseddau newydd fod yn rhai y gellir gwrando arnynt yn llys yr ynadon yn ogystal â Llys y Goron?

Mae'r prosiect hwn yn rhan o'n gwaith ar symleiddio cyfraith droseddol.

Niwsans cyhoeddus a sarhau gwedduster cyhoeddus

Ffynhonnell: 10fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cychwyn: 2010

Ymgyngori: Mawrth i Fehefin 2010

Cwblhad arfaethedig: Diwedd 2014

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith

Mae niwsans cyhoeddus a sarhau gwedduster cyhoeddus ill dau yn droseddau cyfraith gyffredin. Mae'r drosedd o niwsans cyhoeddus yn cynnwys unrhyw weithred neu omeddiad anghyfiawn sy'n datgelu aelodau o'r cyhoedd i beryglon bywyd, iechyd neu ddiogelwch neu golled o gysur neu gwrteisi. Golyga sarhau gwedduster cyhoeddus gwneud gweithred anwedus neu greu arddangosfa anwedus yn y fath le neu yn y fath fodd ble gall aelodau o'r cyhoedd ei weld a chael eu synnu neu'u ffeiddio ganddo.

Yn ein hymgyngoriad, fe gynigom dros dro bod:

- y ddau drosedd yn cael eu hailddatgan ar ffurf statud;
- y dylai'r ddau drosedd gorfod dangos bwriad neu ddiystyrwch; a
- bod y drosedd cyfraith gyffredin ar wahân o gynllwynio i sarhau gwedduster cyhoeddus yn cael ei

ddiddymu a'i ddisodli gan y drosedd cynllwynio statudol arferol.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o'n gwaith ar symleiddio cyfraith droseddol.

Rheoli cynllunio a datblygu yng Nghymru

Ffynhonnell: 12fed Raglen

Adran Arweiniol: Llywodraeth Cymru

Cychwyn: Haf 2014

Ymgynghori: Ail hanner 2015

Cwblhad arfaethedig: Haf 2017

Canlyniad: Argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith a Bil drafft

Mae'r gyfraith ar gynllunio yng Nghymru a Lloegr yn rhy gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Nid yw'r darpariaethau statudol wedi cael eu cyfuno ers Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac mae datblygiadau deddfwriaethol wedi digwydd fesul tipyn ers hynny.

Mae'r sefyllfa hyd yn oed mwy cymhleth yng Nghymru. Mae rhai, ond nid y cwbl, deddfwriaeth Saesneg ddiweddar yn berthnasol i Gymru, tra bod rhai darpariaethau yn berthnasol i Gymru'n unig gydag eraill wedi dod i rym yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Golyga hyn bod hi'n anodd iawn, hyd yn oed i weithwyr proffesiynol, ddeall pa rannau o'r gyfraith gynllunio sy'n berthnasol yng Nghymru, gan arwain at gostau uwch i unigolion, cymunedau a busnesau ynghyd ag awdurdodau cynllunio lleol.

Mae'r system gynllunio yng Nghymru a Lloegr wedi'i seilio ar gynlluniau datblygu lleol. Dylai geisiadau cynllunio unigol gydymffurfio â'r rhain. Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn diwygio swyddogaethau gwneud cynlluniau yng Nghymru ond nid yw'n mynd i'r afael yn y bôn â'r broses benodol o reoli datblygiad ac ystyriaeth ceisiadau cynllunio, na'r berthynas rhwng

rheoli datblygiad a chynlluniau datblygu lleol.

Mae'r prosiect hwn yn ystyried buddion system wedi'i symleiddio a'i foderneiddio sy'n adlewyrchu anghenion Cymru, gwlad lai sy'n defnyddio tir mewn gwahanol foddau, a ble mae cyswllt agos rhwng cyrff llywodraethol. Y prif ffocws yw adolygu prosesau rheoli datblygiad, a'r berthynas rhwng hynny a gwneud cynlluniau. Bydd gan system wedi'i symleiddio a'i foderneiddio i Gymru y potensial i hybu twf economaidd, cyflenwad tai ac amddiffyniad yr amgylchedd, yn ogystal â chynyddu effeithiolrwydd a gostwng costau trafodion.

Symleiddio cyfraith trosedd

Ffynhonnell: 10fed Raglen

Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ein 10fed Raglen ar Ddiwygio'r Gyfraith, fe nodom ein bwriad i gychwyn ar brosiect gyda'r nod o symleiddio cyfraith trosedd, gan adolygu rhai troseddau statudol hŷn neu lai cyffredin gyda'r bwriad o gael gwared ar anghyfiawnderau neu anghysondebau ac, mewn rhai achosion, dileu'r drosedd yn gyfan gwbl. Fe nodom dair ardal blaenoriaeth yn benodol: niwsans cyhoeddus; herwgipio; a brad. Ar yr adeg hon, rydym wedi cychwyn gweithio ar y ddwy ardal gyntaf o'r rhain yn unig (gweld cofnodion ar wahân):

- herwgipio; a
- niwsans cyhoeddus a sarhau gwedduster cyhoeddus.

Troseddau yn erbyn pobl

Ffynhonnell: Cyfeiriad gweinidogol

*Adran Arweiniol: Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder*

Cychwyn: Gwanwyn 2014

Cwblhad arfaethedig: Gaeaf 2014

Canlyniad: Adroddiad cwmpasu

Mae Deddf Troseddau yn erbyn Pobl 1861 yn cael ei gydnabod yn aml fel un sydd wedi dyddio. Mae'n defnyddio iaith hynafol ac yn dilyn ymagwedd Fictoraidd o restru troseddau ar wahân ar gyfer sefyllfaoedd unigol, gyda nifer ohonynt ddim yn berthnasol bellach (er enghraifft, y drosedd o rwystro person sy'n ceisio achub ei hun o longdrylliad).

Mae'r strwythur hefyd yn anfoddhaol; does dim hierarchaeth glir o droseddau ac nid yw'r gwahaniaethau rhwng troseddau bob tro wedi'u hesbonio'n glir. Er enghraifft, mae trosedd yn adran 20 (anafu'n faleisus neu beri niwed corfforol difrifol) yn cael ei ystyried yn fwy difrifol na throedd yn adran 47 (ymosodiad yn achosi niwed corfforol difrifol) ond yr un gosb uchafswm sydd ar gyfer y ddau. Mae anawsterau technegol eraill hefyd: dyma un esiampl, mae'r gwahaniaeth rhwng "achosi" niwed corfforol difrifol yn adran 18 a "peri" niwed corfforol difrifol yn adran 20 yn enwog am fod yn anodd ei esbonio.

Ar gais y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym yn cynnal ymarfer cwmpasu fel y cam cyntaf tuag at brosiect i ddiwygio'r gyfraith ar droseddau yn erbyn pobl. Y nod cyffredinol yw creu hierarchaeth strwythuredig o droseddau, ac i foderneiddio a symleiddio'r iaith sy'n eu diffinio. Mae'n bosib y bydd lle hefyd i uno'r hierarchaeth newydd yma o droseddau gyda dull y gwrandawriad, gyda'r nod o ddatrys rhai gwahaniaethau gweithredol.

Cyfraith statud

Mae cyfuno cyfraith statud a diddymu statudau sydd wedi darfod neu sydd heb unrhyw ddiben defnyddiol bellach wedi bod yn swyddogaethau pwysig o Gomisiwn y Gyfraith ers ei sefydliad. Trwy foderneiddio'r llyfr statud a'i wneud yn fyrrach, yn gliriach ac yn fwy hygyrch, mae'r gwaith yma'n helpu arbed amser a chostau i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r gyfraith ynghyd ag eraill sydd angen ei ddefnyddio, ac yn wneud yn haws i ddinasyddion gael cyfiawnder.

Cyfuno

Mae dros 200 o Ddeddfau cyfuno wedi cael eu deddfu ers creu'r Comisiwn ym 1965. Nod y gwaith hwn yw gwneud cyfraith statud yn fwy hygyrch a dealladwy; gall gael buddion ymarferol go iawn.

Rydym yn archwilio'r gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder os dylid ailgychwyn ein prosiect i gyfuno'r gyfraith ar fechnïaeth.

“Hoffwn orffen trwy ddiolch i Comisiwn y Gyfraith sy'n gwneud gwaith da iawn i ni yn y wlad hon. Ychwanegaf fy nheyrnged iddo am y gwaith parhaol mae'n gwneud i'n cyflwyno gyda cynigion ystyrion a mesuredig am ddeddfwriaeth.”

Simon Hughes AS, HC Deb, 26 Mawrth 2014, C427.

Diddymiadau cyfraith statud

Bydd y gwaith amlinellir yn y bennod hon yn ffurfio'r sail ar gyfer yr 20fed Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau), yr ydym yn disgwyl ei argymhell i'r Llywodraeth yn 2015.

Deddfwriaeth yr 20fed ganrif

Cychwyn: 2012

Cwblhau: haf 2015

Canlyniad: Adroddiad ar Ddiddymiadau Cyfraith Statud a Bil drafft

Awgryma adolygiad o ddeddfwriaeth yr 20fed ganrif bod cryn dipyn o ddeddfau cymharol fodern ond wedi darfod sydd wedi cwmpo y tu allan i'n prosiectau blaenorol ar ddiddymiadau.

Rydym wedi cwblhau archwiliad cronolegol o Ddeddfau'r 20fed ganrif ac rydym yn ystyried diddymiadau mewn nifer o ardaloedd.

Cyllid, trethiant a diddymiadau eraill

Ymgynghoriad: diwedd 2014

Bydd pedwaredd elfen yr 20fed Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) yn gasgliad o ddiddymiadau yn deillio o brosiect diddymiadau o'r 20fed Ganrif ac yn ymwneud ag amrywiaeth o themâu.

Mae'n debygol y bydd yr adran fwyaf yn ymwneud â Deddfau sydd wedi darfod yn ymwneud â chyllid a threthiant. Rydym hefyd yn ymgynghori ar ddiddymiadau posib o Ddeddfau sydd wedi darfod yn ymwneud â'r heddlu, cyfraith droseddol, llongau a diogelwch cymdeithasol.

Masnach a diwydiant

Ymgynghori: Mehefin 2014

Rydym yn cynnig diddymu 37 Deddf sydd wedi darfod a'r diddymiad rhannol o 11 Deddf arall yn ymwneud â masnach a diwydiant. Mae'r Deddfau'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1860 a 2007.

Mae'r cynigion am ddiddymiadau mewn dau grŵp. Mae'r cyntaf yn cynnwys

deddfwriaeth ar y diwydiant glo gan ddechrau ychydig cyn gwladoli'r diwydiant glo yn 1947. Mae nifer o'r ddeddfwriaeth ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn ymwneud â system gyllido'r Llywodraeth o'r diwydiant glo a'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ac mae bellach wedi darfod.

Mae'r ail grŵp yn ymwneud yn fwy cyffredinol â deddfwriaeth masnach a diwydiant. Yn dyddio gan fwyaf o'r 1940au, mae'r cyflawniadau sydd wedi darfod yn adlewyrchu newidiadau economaidd a chymdeithasol yn ail hanner yr 20fed ganrif.

Mae'r cynigion yn cynnwys diddymu:

- pum Deddf a basiwyd i reoleiddio'r diwydiant telegraff;
- Deddf yn 1938 a basiwyd i gynnal cyflenwadau bwyd a thanwydd pe byddai yna ryfel;
- Deddf yn 1939 a basiwyd i gyfyngu ar hysbysebu yswiriant wedi'i anelu at ddiogelu perchnogion tai yn erbyn peryglon rhyfel;
- Deddf yn 1975 a basiwyd i atal cwmnïau cynhyrchu pwysig rhag pasio ymlaen at bobl nad oeddent yn drigolion; a
- Deddf yn 1979 a basiwyd i reoleiddio Asiantau'r Goron.

Yr India Brydeinig

Ymgynghori: 2012

Cwblhau: haf 2015

Canlyniad: Adroddiad ar Ddiddymiadau Cyfraith Statud a Bil drafft

Mae'r gwaith yma'n cynrychioli'r drydedd cam, sef yr un olaf, o adolygiad y Comisiwn o ddeddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i'r India Brydeinig sydd wedi darfod neu sy'n hynafol.

Yn yr ymgynghoriad hwn fe adolygom tua 24 statud oedd wedi galluogi i gwmnïau gael eu sefydlu a gweithredu amrywiaeth o

ymgymeriadau masnachol naill ai yn, neu mewn cysylltiad â, beth oedd – tan 1947 – yr India Brydeinig (heddiw yn bennaf India, Pacistan a Bangladesh).

Eglwysi

Ymgynghori: Gorffennaf 2014

Cwblhau: haf 2015

Canlyniad: Adroddiad ar Ddiddymiadau Cyfraith Statud a Bil drafft

Mae'r prosiect hwn yn archwilio Deddfau yn 18fed a'r 19eg ganrifoedd y'u pasiwyd i godi arian er mwyn atgyweirio neu ailadeiladu hen eglwysi yng Nghymru a Lloegr.

Roedd angen awdurdod seneddol ar gyfer y gwaith hwn oherwydd roedd y costau yn cael eu talu trwy drethi a godwyd ar drigolion y plwyfi. Bron ym mhob achos, diddymwyd y Deddfau wedi i arian digonol gael ei godi o'r plwyfolion. Yn wir, mae nifer o'r eglwysi gan sylw ddim yn bodoli bellach.

Rydym yn argymhell diddymu'r 121 Deddf sydd wedi darfod.

